

Llwybr Arfordir Cymru – Ynys Môn

Arolwg Busnes 2024

Julie Hollingsworth, Cyfarwyddwr Cyswllt
jhollingsworth@djsresearch.com

Clare Rapkins, Uwch-reolwr Ymchwil
crapkins@djsresearch.com

Emily Ward, Uwch-swyddog Gweithredol Ymchwil
eward@djsresearch.com



Cynnwys

- 3 Cefndir a methodoleg
- 6 Proffiliau busnes
- 11 Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau
- 16 Ansawdd y llwybr
- 19 Hyrwyddo'r llwybr
- 28 Casgliadau ac argymhellion



Llwybr Arfordir Cymru - Ynys Môn Cefndir a Methodoleg


Cefndir a Methodoleg

Prif nod yr arolwg hwn yw gwella dealltwriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill o'r cymorth sydd ei angen ar fusnesau i fanteisio i'r eithaf ar eu lleoliad a'r cyfleoedd a gyflwynir gan llwybrau pellter hir Cymru, sef Llwybr Arfordir Cymru (gan gynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro), Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a Llwybr Cenedlaethol Glyndŵr.

Yn gyffredinol, mae'r amcanion yn ymwneud â'r holl llwybrau pellter hir; fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar fudd **Llwybr Arfordir Cymru ar Ynys Môn**.

Mae'r amcanion allweddol yn cynnwys:

- Nodi'r mathau o fusnesau sy'n gweithredu ar y llwybrau neu'n agos atynt.
- Deall y gwasanaethau a ddarperir gan fusnesau sy'n agos at y llwybrau.
- Asesu'r buddion y mae'r llwybrau'n eu rhoi i fusnesau, gan gwmpasu incwm uniongyrchol ac anuniongyrchol a gynhyrchir dros wahanol dymhorau.
- Gwerthuso lefel y cydweithio ymhlith busnesau ar hyd y llwybrau.
- Gofyn am farn ar faterion megis argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus, gweledd, hygyrchedd, arwyddion, marchnata, cefnogaeth, ac unrhyw heriau neu rwystrau sy'n gysylltiedig â'r llwybrau.
- Archwilio'r diddordeb a'r gefnogaeth ar gyfer sefydlu porth busnes pwrpasol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru.
- Hwyluso cymhariaeth ag arolygon blaenorol a gynhaliwyd ar yr un pwnc lle bo hynny'n bosibl neu'n berthnasol.



Cynhaliwyd yr arolwg hwn drwy gyfweiliadau ffôn â chymorth cyfrifiadur (CATI). Er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn gynhwysol ac yn hygyrch, darparwyd opsiwn ar-lein hefyd.

I fod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, roedd yn rhaid i fusnesau naill ai ystyried eu hunain yn agos at un o'r llwybrau pellter hir (o fewn pellter cerdded neu daith car fer) neu ddatgan eu manteision busnes o un o'r llwybrau mewn rhyw ffordd.

Ar y cyfan, roedd ychydig dros fil o fusnesau yn rhan o'r arolwg. Roedd **70 ohonynt ar Ynys Môn** ac fe'u neilltuwyd i Llwybr Arfordir Cymru, ar y sail mai dyna oedd eu llwybr agosaf neu'r un y cawsant y budd mwyaf ohono. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y busnesau hyn yn unig.

I gael manylion llawn y fethodoleg, gweler [Arolwg Busnes Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol 2024 \(adroddiad cyffredinol\)](#).⁴

Canllaw i'r adroddiad hwn

Talgrynnu

Cyflwynir y canlyniadau yn yr adroddiad hwn fel rhifau cyfan er hwylustod darllen a dehongli. Talgrynnir ar gam olaf y cyfrifiad er mwyn sicrhau'r cywirdeb mwyaf. Felly, lle cyflwynir canlyniadau fel % yn gadarnhaol, % yn niwtral neu % yn negyddol, efallai y bydd achosion lle nad yw'r canlyniadau'n dod i gyfanswm o 100%. Ni ddylai'r gwahaniaethau byth amrywio o +/- 1% pwynt.

Meintiau sylfaen

Sylwch, y meintiau sylfaen sydd wedi'u cynnwys yw cyfanswm y bobl a ymatebodd i gwestiwn penodol. Gan nad yw pawb wedi ateb pob cwestiwn, gall y sylfaen ar gyfer cwestiynau unigol fod yn is na chyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd i'r arolwg, sydd wedi'u lleoli ar Ynys Môn ac a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (70).

Diffiniad o lwybr 'a neilltuwyd'

Ar ôl ateb cyfres o gwestiynau sgrinio i bennu agosatrwydd (So2a, So2b) a phwysigrwydd llwybrau i fusnesau unigol (So3, Co1 a Co2), neilltuwyd llwybr i fusnesau a gofynnwyd iddynt ymateb i weddill cwestiynau'r arolwg yn seiliedig ar eu llwybr 'penodedig'. Mewn achosion lle'r oedd busnesau wedi'u lleoli'n agos at neu'n elwa o fwy nag un llwybr, cawsant eu neilltuo i'r un a) a oedd yn cynhyrchu'r gyfran uchaf o werthiannau/trosiant neu b) y maent yn fwyaf dibynnol arno ar gyfer eu busnes.

Cymhariaeth â gwerthoedd 'cyfanswm'

Yn yr adroddiad hwn, mae canlyniadau'r rhai sydd wedi'u lleoli ar Ynys Môn ac sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru yn cael eu cymharu â'r ffigurau cyfartalog o'r sampl gyfan o fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru, waeth beth fo lleoliad y busnes. Mae'r cyfartaledd cyfun wedi'i labelu fel "Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)" yn y siartiau cymharu. Lle mae ffigurau'n sylweddol uwch na'r cyfanswm ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol, bydd saeth liw yn y siart yn dangos a yw hyn yn sylweddol uwch neu is. Os nad oes saeth, nid yw'r ffigur hwn yn wahanol iawn i'r cyfanswm a dylid ei drin yn ofalus. Lle bernir bod gwahaniaethau mawr yn ddi-nod, mae'n debygol bod hyn oherwydd maint sylfaen gwahanol y ddwy sampl.


Sylwch – mae Llwybr Arfordir Sir Benfro wedi'i ddosbarthu fel Llwybr Cenedlaethol ond mae hefyd yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru. Drwy gydol yr adroddiad hwn, wrth gyfeirio at Lwybr Arfordir Cymru (cyfanswm), rydym yn cyfeirio at Lwybr Arfordir Cymru gan gynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro.

Llwybr Arfordir Cymru - Ynys Môn

Proffiliau Busnes (I)

Proffiliau Busnes (I)

Mae'r 70 busnes yn ardal Ynys Môn yn cynrychioli ystod o sectorau - mae 50% ohonynt yn y sector manwerthu neu lety. Mae 17% arall yn gweithio yn y sector lletygarwch ac arlwyo. Yn gyffredinol, mae 84% o'r busnesau hyn o fewn y sector preifat, gyda 9% arall yn fusnesau sector cyhoeddus.




Sylfaen: Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664) Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (70). **Co5B.** Pa un o'r canlynol sy'n crynhoi gweithgareddau eich prif fusnes orau? **Co1.** Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch busnes orau?


Proffiliau Busnes (II)

Mae'r rhan fwyaf o'r busnesau ar Ynys Môn yn cyflogi llai na 50 aelod o staff. Mae microfusnesau gyda gweithlu o 0-9 o weithwyr yn cyfrif am 52% o'n sampl. Mae 41% arall yn fusnesau bach gyda rhwng 10-49 o weithwyr. O edrych ar drosiant, mae'r gyfran uchaf - 19% - yn nodi trosiant o £100-200,000 y flwyddyn. Gyda'i' gylydd, mae 53% o fusnesau'n nodi trosiant o £300,000 neu lai.

Maint y busnes



Trosiant




Sylfaen: Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664) Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (70). **Co7A/B.** Gan gynnwys eich hun, faint o staff llawn amser a rhan amser parhaol a gyflogir gan eich busnes? **Co2.** Beth oedd trosiant bras eich busnes (neu werth gwerthiant) yn eich blwyddyn ariannol ddiwethaf?

↓ ↑ Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)


Proffiliau busnes (III)

Mae bron i hanner (49%) y busnesau arYnys Môn y buom yn siarad â nhw wedi'u sefydlu ers dros 20 mlynedd, gyda 27% ohonynt wedi bod yn gweithredu ers 10-19 mlynedd. Ychydig iawn oedd yn fusnesau newydd eu sefydlu. Mae 77% o'r busnesau y buom yn siarad â nhw arYnys Môn yn gweithredu o un lleoliad yng Nghymru. Mae gan 20% ohonynt fwy nag un lleoliad ledled Cymru.

Nifer y safleoedd



Daliadaeth y busnes




Sylfaen: Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664) Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (70). **Co6.** A yw eich busnes yn gweithredu o un lleoliad neu eiddo, neu leoliadau neu adeiladau lluosog? **Co4.** Oddeutu pa mor hir mae eich busnes wedi bod yn gweithredu o'r lleoliad hwn?


Proffiliau busnes (IV)

Mae 80% o fusnesau Ynys Môn ar agor drwy gydol y flwyddyn. I 39% ohonynt, mae busnes fwyaf tebygol o fod ar ei brysuraf yn ystod misoedd yr haf. Fodd bynnag, mae busnesau ar Ynys Môn ychydig yn fwy tebygol o adrodd nad yw eu busnes yn cael ei effeithio'n dymhorol o'i gymharu â'r cyfartaledd ar draws Llwybr Arfordir Cymru (33% o'i gymharu â 27%).

Busnes ar agor drwy'r flwyddyn



Tymor brig



Sylfaen: Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664) Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (70). **Cwoga.** Ydy'ch busnes ar agor drwy'r flwyddyn? **CogB.** A oes yna dymor neu amser penodol o'r flwyddyn pryd y mae'r defnydd o'ch cynhyrchion neu wasanaethau ar ei uchaf o ganlyniad i Lwybr Arfordir Cymru?


Llwybr Arfordir Cymru - Ynys Môn

Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau

Proffiliau busnes – yn benodol i'r llwybr

Mae 55% o fusnesau yn ystyried bod y llwybr yn weddol bwysig neu'n bwysig iawn i lwyddiant eu busnes, gyda 19% yn nodi ei fod yn bwysig iawn. Mewn cyferbyniad, mae 23% yn nodi nad yw'r llwybr o fudd i lwyddiant eu busnes o gwbl, ac mae hyn 9 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd ar gyfer pob busnes ar hyd Llwybr Arfordir Cymru (32%).

Pwysigrwydd y llwybr i lwyddiant busnesau




Sylfaen: Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664) Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (70). **Coz.** Sut byddech chi'n disgrifio pwysigrwydd y llwybr i lwyddiant eich busnes?

↓ ↑ Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)

Proffiliau busnes – yn benodol i'r llwybr


Mae Llwybr Arfordir Cymru yn cynhyrchu hyd at 10% o werthiant/trosiant i 57% o fusnesau ar Ynys Môn. Dywed 16% arall fod y llwybr yn cynhyrchu 11-50% o'u gwerthiant/trosiant.

Canran y gwerthiannau/trosiant a gynhyrchir gan ddefnyddwyr y llwybr / bodolaeth y llwybr



Sylfaen: Pob busnes sydd wedi'i neilltuo i Llwybr Arfordir Cymru ac sy'n gweithredu ar Ynys Môn sy'n nodi bod y llwybr yn bwysig i'w fusnes (51) C03. Pa ganran o'ch gwerthiant neu drosiant a gynhyrchir gan ddefnyddwyr pob un o'r llwybrau canlynol neu y gellir ei phriodoli i'w bodolaeth mewn rhyw ffordd?

Manteision y llwybr i fusnesau



Mae 61% o fusnesau Ynys Môn yn datgan bod y llwybr wedi cael rhywfaint o fudd ar eu busnes. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol (54%).

Yn benodol, mae 59% o fusnesau Ynys Môn yn datgan bod y llwybr wedi bod o fudd o ran nifer y cwsmeriaid neu ymwelwyr â'u busnes (o gymharu â 48% ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol).

Mae 41% o fusnesau Ynys Môn yn cytuno bod presenoldeb Llwybr Arfordir Cymru wedi bod o fudd i'w trosiant.


Yn ogystal, dywed 17% fod y llwybr wedi helpu i sicrhau cyflogaeth ar gyfer unrhyw un o'u haelodau staff.

Sylfaen: Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664) Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (70). **Q24a.** Ydych chi'n meddwl bod presenoldeb Llwybr Arfordir Cymru wedi arwain neu wedi cyfrannu at unrhyw un o'r canlynol ar gyfer eich busnes?

Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau

Mae 27% o fusnesau ar Ynys Môn yn meddwl y bydd Llwybr Arfordir Cymru yn dod yn bwysicach i'w llwyddiant yn y dyfodol (o'i gymharu â 23% ar gyfartaledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru i gyd), yn bennaf oherwydd y cynnydd posibl mewn twristiaeth oherwydd hyrwyddo llwybrau.

Newid ym mhowsigrwydd y llwybr i lwyddiant busnes (cyfanswm)



"Mae'n rhywbeth sy'n tyfu. Mae'n ardal boblogaidd yng Ngogledd Cymru. Mae gwylwyr adar wrth eu bodd yn dod i lawr - maen nhw'n defnyddio'r llwybr cryn dipyn."

"Efallai y bydd y ffordd y mae pobl yn dod ar eu gwyliau yn newid ac mae'n bosibl y bydd angen i ni ganolbwyntio mwy ar gerddwyr yn y dyfodol."

"Mae llawer o bobl yn gwneud ymchwil ac mae Ynys Môn wedi dod yn fwy poblogaidd dros y blynyddoedd diwethaf."


Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70) C25a. A ydych yn ystyried y bydd unrhyw newid yn y dyfodol ym mhowsigrwydd Llwybr Arfordir Cymru i lwyddiant eich busnes? **Sylfaen:** Lle y bydd y llwybr yn dod yn bwysicach (20)* C25b. Pam hynny?* Rhybudd: maint sylfaen isel

Llwybr Arfordir Cymru - Ynys Môn

Ansawdd y Llwybr

Canfyddiadau o agweddau o'r llwybr

Cyflwynwyd rhestr o chwe agwedd i bob busnes a gofynnwyd iddynt raddio pob un. O'r holl agweddau a gafodd eu graddio, mae busnesau ar Ynys Môn ar eu mwyaf cadarnhaol am yr arwyddion a'r gwaith cynnal a chadw dodrefn y llwybr (y ddau'n 43% - da/da iawn). Mewn cyferbyniad, maent ar eu lleiaf cadarnhaol ynghylch hygyrchedd y llwybr (4% yn nodi da/da iawn). Fodd bynnag, rydym yn gweld bod 27% o fusnesau yn dweud nad ydynt yn gwybod. Gallai hyn fod oherwydd diffyg ymwybyddiaeth a/neu nad yw perchnogion busnes wedi defnyddio'r llwybr.




Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70) C20. Sut fydddech chi'n graddio pob un o'r agweddau canlynol? Ni ddangosir labeli data <5%

Yn sylweddol uwch/is na Llwyr Arfordir Cymru (cyfanswm)

Canfyddiadau o agweddau o'r llwybr – ac eithrio ymatebion 'ddim yn gwybod'

Mae eithrio'r ymatebion 'ddim yn gwybod' yn datgelu stori llawer mwy cadarnhaol. O'r rhai sy'n ymwybodol, mae 55% yn rhoi sgôr gadarnhaol o ran cynnal a chadw dodrefn y llwybr. Er bod hyn yn dal yn gadarnhaol, mae hyn 11 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn ei gyfanrwydd. Yn y cyfamser, mae 50% yn dweud bod yr arwyddion yn dda neu'n dda iawn (yn gyson â'r canfyddiad ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn ei gyfanrwydd). Er bod yr agwedd gadarnhaol ynglŷn â hygyrchedd yn dal i fod yn isel iawn, mae wedi cynyddu o 4% i 6%.



Sylfaen: Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (ac sydd hefyd wedi'i neilltuo i Llwybr Arfordir Cymru), ac eithrio'r rhai a atebodd 'ddim yn gwybod' (mae sylfaen yn amrywio gyda'r datganiad – gweler y siart am fanylion). **C2o.** Sut fyddech chi'n graddio pob un o'r agweddau canlynol? Ni ddangosir labeli data <5%

Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)


Llwybr Arfordir Cymru - Ynys Môn

Hyrwyddo'r Llwybr



Ymwybyddiaeth Brandio

Mae gan 80% (o'i gymharu â 71% ar gyfartaledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn ei gyfanrwydd) o fusnesau Ynys Môn o leiaf rhywfaint o ymwybyddiaeth o frand y llwybr, gyda 29% o fusnesau yn nodi eu bod yn 'ymwybodol iawn'. Fodd bynnag, pan ofynnwyd i'r ymatebwyr hynny ddisgrifio'r logo, ni chafodd pob un y manylion yn gywir. Dywedodd 36% yn gywir fod y logo yn las, a dywedodd 21% ei fod yn felyn, ond dim ond 4% a ddywedodd yn gywir fod y logo yn cynrychioli cragen. Yn ogystal, mae 29% yn nodi nad yw'r logo yn gofiadwy.




Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70) **C10.** I ba raddau ydych chi'n ymwybodol o frandio Llwybr Arfordir Cymru neu sut mae'n cael ei hyrwyddo? **Sylfaen:** Pob ymatebydd sy'n ymwybodol o frandio Llwybr Arfordir Cymru neu sut mae'n cael ei hyrwyddo: Ynys Môn (56) **C11.** Sut byddech chi'n disgrifio brandio (h.y. logo) Llwybr Arfordir Cymru? *Sylwer – mae gan Llwybr Arfordirol Ynys Môn ei frand ei hun sy'n dangos aderyn ar gefndir glas


Ymwybyddiaeth hysbysebu

Mae 36% o fusnesau Ynys Môn wedi gweld rhywfaint o gyhoeddusrwydd neu hysbysebu yn ymwneud â'r llwybr dros y 12 mis diwethaf (o/i gymharu â 38% ar gyfartaledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru i gyd). Or 25 busnes sydd wedi gweld hysbysebion, dywed 36% ohonynt eu bod wedi'u gweld ar Facebook, a 16% wedi gweld hysbysebion ar ffurf taflen, llyfryn neu boster. Yn ogystal, o'r busnesau hynny, mae'r mwyafrif o'r farn bod 'effeithiolrwydd' cyhoeddusrwydd diweddar i ddenu defnyddwyr yn 'dda'.

Y % a welodd cyhoeddusrwydd/hysbysebu



Lle gwelwyd cyhoeddusrwydd/hysbysebu*




Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70). **C12.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw gyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth am Lwybr Arfordir Cymru? **Sylfaen:** Pob ymatebydd sydd wedi gweld neu glywed cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth : Ynys Môn (25)* **C13.** A allwch ddweud wrthyf ble neu sut yr ydych chi wedi gweld cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru? *Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos. *Rhybudd: maint y sylfaen yn fach

Derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol

Dim ond 9% o fusnesau (o'i gymharu â 10% ar gyfartaledd ar gyfer Llywbr Arfordir Cymru yn ei gyfanrwydd) sy'n cofio cael cyfathrebiadau uniongyrchol am Lwybr Arfordir Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf

Y % a dderbyniodd cyfathrebiadau uniongyrchol



* Sylwer – mae'r maint sylfaen ar gyfer adrodd adborth ar y cyfathrebu uniongyrchol a dderbyniwyd yn rhy isel i'w ddadansoddi ar lefel ranbarthol.


Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70). **C15.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych yn cofio derbyn unrhyw gyfathrebiadau uniongyrchol am Lwybr Arfordir Cymru?

Hyrwyddo'r llwybr gan fusnesau

Mae 59% o fusnesau Ynys Môn yn hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru mewn rhyw ffordd (o'i gymharu â 52% ar gyfartaledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru), gyda 21% yn nodi bod y llwybr yn cael ei grybwyll yn benodol yn eu deunyddiau marchnata (o'i gymharu â 20% o gyfanswm Llwybr Arfordir Cymru). Mae 46% arall o fusnesau yn hyrwyddo'r llwybr ar lafar gwlad (o'i gymharu â 40% o gyfanswm Llwybr Arfordir Cymru), a 14% yn sôn am llwybr, ond nid yn ôl enw (o'i gymharu â 9% o gyfanswm Llwybr Arfordir Cymru).

* Sylwch – cwestiwn amlddewis oedd hwn, sy'n golygu na fydd cyfanswm y bariau yn 100%.

Cyfrifwyd canran y busnesau sy'n hyrwyddo'r llwybr mewn rhyw ffordd drwy dynnu'r ganran sy'n dweud nad ydynt yn ei hyrwyddo (41%) o 100.




Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (a hefyd wedi'u neilltuo i Llwybr Arfordir Cymru) (70). **C17.** A ydych chi'n sôn am neu'n hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru yn unrhyw un o'ch deunyddiau marchnata eich hun, er enghraifft ar eich gwefan neu sianeli cyfryngau cymdeithasol, neu wrth siarad â'ch cwsmeriaid?

Hyrwyddo'r llwybr

Mae 14% o fusnesau Ynys Môn yn meddwl bod Llwybr Arfordir Cymru eisoes yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol. Mae hyn yn cymharu â 21% ar gyfer yr holl fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru, yn genedlaethol. Mewn cymhariaeth, nid yw 79% yn meddwl ei fod yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol.


Yn gyffredinol, ydych chi'n meddwl bod y llwybr yn cael ei hyrwyddo...?



Sylfaen: Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (70). **C19.** Yn gyffredinol, a ydych chi'n meddwl bod Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei hyrwyddo...?

Annog ymweliadau


Cyflwynwyd pedwar gwelliant posibl i'r llwybr i fusnesau a gofynnwyd iddynt ddatgan i ba raddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno a oedd eu hangen. Mae 74% o fusnesau Ynys Môn yn teimlo bod angen gwell trafndiaeth gyhoeddus (sy'n gyson â'r cyfartaledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn ei gyfanrwydd). Mae cyfran debyg yn teimlo bod angen mwy o wybodaeth/gwell gwybodaeth am drafndiaeth gyhoeddus, a sut i gyrraedd y llwybr mewn car (73% ar gyfer y ddau o'i gymharu â 76% a 77% ar gyfartaledd).



Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (a hefyd wedi'u neilltuo i Llwybr Arfordir Cymru) (70). **C21.** I ba raddau a ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod angen pob un o'r canlynol i annog mwy o bobl i ymweld â Llwybr Arfordir Cymru? *Sylwer – nid yw labeli data <3% yn dangos er taclusrwydd.

Gwella mynediad

Pan ofynnwyd mewn cwestiwn agored pa welliannau sydd eu hangen i wella mynediad, prif argymhelliad busnesau Ynys Môn ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yw gwella cysylltiadau trafndiaeth, gyda 33% yn gwneud hyn yn flaenoriaeth, yn gyson â chanfyddiadau ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru, yn genedlaethol. Yn ogystal, mae 17% yn credu y gallai cwsmeriaid/ymwelwyr elwa o well arwyddion a gwell meysydd parcio, sydd 6 phwynt % yn uwch na'r cyfartaledd (11%). Mae busnesau Ynys Môn hefyd yn rhoi mwy o bwys ar wella parcio na'r busnes cyfartalog ar hyd Llwybr Arfordir Cymru (17% o'i gymharu â chyfanswm o 9%).



"Mae angen mwy o gysylltiadau trafndiaeth a mwy o drafndiaeth yn amlach. Nid yw Bwrdd Croeso Cymru yn bresennol yr ardal bellach i roi gwybodaeth, ac mae'r arwyddion ar gyfer Llwybr Ynys Môn yn wael yng Nghaergybi ac Ynys Môn ar gyfer y llongau mordaith."

"Trafndiaeth – mae trafndiaeth gyhoeddus yn jôc! Rydyn ni'n cael 3 bws y dydd, ac ar ddydd Sul, dim ond un bws y dydd sy'n dod yma. Mae'r bws olaf am 5.30pm."


"Mae trafndiaeth yn broblem fawr yma - heb ei gwasanaethu'n dda. Mae parcio yn broblem enfawr hefyd. Mae angen gwell darpariaeth parcio a theithio neu drafndiaeth gyhoeddus."

Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (a hefyd wedi'u neilltuo i Llwybr Arfordir Cymru) (70). **C22.** Pa welliannau (os o gwbl) ydych chi'n meddwl sydd eu hangen i helpu mwy o gwsmeriaid/ymwelwyr i deithio o gwmpas neu i gael mynediad i'r llwybrau? *Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos.

↓ ↑ Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)

Gwybodaeth i gefnogi cwsmeriaid busnes / defnyddwyr llwybr

Mae'r wybodaeth a grybwyllir amlaf y mae busnesau'n credu y byddai eu cwsmeriaid yn ei chael fwyaf buddiol yn ymwneud dolenni a llwybrau cylchol (24% o'i gymharu ag 20% o'r holl fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru) a theithlenni (23% o'i gymharu â 19% o'r holl fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru) i gerddwyr.



Ymatebion 'eraill'

"Ap gyda gwybodaeth am ba mor hir y byddai'n ei gymryd / faint o filltiroedd rhwng pwyntiau."

"Gwybodaeth am sut i fod yn ystyriol o'r amgylchedd – codi sbwriel, mynd â'u barbeciws adref, mynd â'u pebyll adref, peidio â gwersylla dros nos mewn faniau gwersylla yn y mannau parcio."

Sylfaen: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70). **C30.** Pa fath o wybodaeth ydych chi'n meddwl fyddai fwyaf defnyddiol i'ch cwsmeriaid neu ddefnyddwyr eraill Llwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol? *Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos

  Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)

Llwybr Arfordir Cymru - Ynys Môn

Casgliadau ac argymhellion



Casgliadau

Mae 69% o fusnesau Ynys Môn yn elwa o Llwybr Arfordir Cymru (o'i gymharu â 39% ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn ei gyfanrwydd), ac mae 55% yn ei ystyried yn bwysig i'w llwyddiant, gyda 19% yn ei ddisgrifio'n "bwysig iawn". Yn ogystal, mae 27% yn credu y bydd pwysigrwydd y llwybr yn cynyddu yn y dyfodol.

Er bod 80% o fusnesau'n ymwybodol o frandio Llwybr Arfordir Cymru, dim ond 5% a nododd gynrychioliad cregyn y logo yn gywir.

Mae dros hanner y busnesau yn hapus gyda chynnal a chadw dodrefn llwybrau (55% ac eithrio'r atebion ddim yn gwybod) ac arwyddion y llwybr (50% ac eithrio'r atebion ddim yn gwybod) Fodd bynnag, dim ond 6% o'r busnesau a oedd yn ymwybodol a ddywedodd fod hygyrchedd y llwybr yn dda.

Argymhellion

Ystyried cynyddu ymdrechion marchnata wedi'u targedu gan amlygu potensial Llwybr Arfordir Cymru i ysgogi twristiaeth a refeniw i fusnesau. Cynnwys straeon o lwyddiant a thystebau i annog mwy o fusnesau i fanteisio ar werth y llwybr.

Er mwyn gwella'r gallu i gofio logo Llwybr Arfordir Cymru a chynyddu cyrhaeddiad y gwaith marchnata, gallai fod o gymorth i ddefnyddio'r logo'n gyson ar draws yr holl ddeunyddiau marchnata. Ystyried cydweithio gyda busnesau lleol i'w arddangos ar eu gwefannau a'u sianeli cyfryngau cymdeithasol. Gallai ymgyrchoedd rhyngweithiol, fel cystadlaethau tynnu lluniau sy'n annog ymwelwyr i ddangos y logo ar dirnodau allweddol, hybu ymgysylltiad a chydabyddiaeth ymhellach.

Mynd i'r afael â materion hygyrchedd drwy wella seilwaith ffisegol a darparu arwyddion clir. Edrych i gydweithio â chynghorau lleol i flaenoriaethu prosiectau fel creu pwyntiau mynediad hygyrch.

Casgliadau

Mae 74% o fusnesau yn teimlo bod angen gwell trafndiaeth gyhoeddus.

Pwysleisiodd 33% fod gwell cysylltiadau trafndiaeth yn flaenoriaeth allweddol. Amlygwyd parcio ac arwyddion hefyd fel meysydd i'w gwella.

Er bod 59% o fusnesau'n hybu'r llwybr mewn rhyw ffordd, dim ond 21% o fusnesau sy'n crybwyll Llwybr Arfordir Cymru yn benodol yn eu deunyddiau marchnata. Yn ogystal, mae 79% yn credu nad yw'r llwybr yn cael ei hybu'n ddigonol.

Argymhellion

Er y gallai fod yn anodd gwella'r seilwaith trafndiaeth gyhoeddus ar Ynys Môn, efallai y byddech yn ystyried gweithio gyda gweithredwyr trafndiaeth lleol i wella ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau presennol drwy greu canllawiau syml sy'n gyfeillgar i ymwelwyr gydag amserlenni a llwybrau. Gallai annog busnesau lleol i arddangos y canllawiau hyn neu rannu gwybodaeth am drafndiaeth ar eu gwefannau a chyfryngau cymdeithasol wella hygyrchedd ymhellach.

Er mwyn cynyddu'r gwaith o hybu'r llwybr, defnyddio'r pecynnau adnoddau busnes hyd eithaf eich gallu, gan hysbysebu'r pecynnau hyn ymhellach i gynyddu ymwybyddiaeth a defnydd. Darparu adnoddau marchnata, gan gynnwys logos, teithlenni, a deunyddiau hyrwyddo, i'w gwneud hi'n haws i fusnesau integreiddio hyrwyddo llwybrau yn eu hysbysebu.

For more information

Julie Hollingsworth, Cyfarwyddwr Cyswllt
jhollingsworth@djsresearch.com

Clare Rapkins, Uwch-reolwr Ymchwil
crapkins@djsresearch.com

Emily Ward, Uwch-swyddog Gweithredol Ymchwil
eward@djsresearch.com



Head office: 3 Pavilion Lane, Strines,
Stockport, Cheshire, SK6 7GH

Leeds office: Regus, Office 18.09, 67 Albion Street
Pinnacle, 15th–18th Floors, Leeds, LS1 5AA

+44 (0)1663 767 857 | djsresearch.co.uk

